**EPT-13-02 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2002 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:00 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau'r Pwyllgor:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr yr Adran Drafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Denzil Jones (eitemau 2 a 5) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Peter Jones (eitemau 2 a 6) | Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Dr Ruth Hall (eitem 3) | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Robert Williams (eitem 3) | Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| Kay Powell (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |
| Jeff Spear (eitem 4) | Yr Is-adran Gynllunio |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawyd yr Aelodau a phawb a oedd yn bresennol i gyfarfod olaf y tymor gan y Cadeirydd a hysbysodd y Pwyllgor:

- y byddai'r drafodaeth ar alwad Pwyllgor Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol y Cyngor Nordig am gefnogaeth i'w safiad ynglyn ag allyriannau o waith prosesu niwclear Sellafield yn cael ei chynnal bellach yn nhymor yr hydref;
- bod ymateb ffurfiol y Pwyllgor i flaenoriaethau'r gyllideb wedi cael ei anfon at y Gweinidog (gweler y copi yn Atodiad 1).

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Datganwyd y buddiannau canlynol o dan Reol Sefydlog 4.5:

- Brian Hancock – cyn cael ei ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol roedd yn gweithio fel ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol;
- Val Lloyd – Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-13-02 (p 1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor fod yr awdurdodau lleol i gael cynnydd yn y cymorth ariannol a roddir i gyflymu gwaith ar amddiffynfeydd rhag llifogydd, gyda chyfradd y grant yn cynyddu o 45% i 85%.

2.2 Nodir isod y prif bwyntiau yr ymdriniwyd â nhw yn ystod y drafodaeth:

**Cefn Gwlad**

- Y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – pwysigrwydd sicrhau bod y mapiau mynediad drafft ar gael yn hwylus fel y gallai tirfeddianwyr ac eraill sydd â buddiant ymateb i'r ymgynghoriad.

- Cyfyngu'r defnydd o beledi plwm – y goblygiadau masnachol i wneuthurwyr deunyddiau a ddefnyddir yn lle peledi plwm pan ddeuai'r Rheoliadau i rym.

**Diogelu'r Amgylchedd**

- Cyfarfod ag OFWAT – byddai'r cyswllt ag OFWAT ynglyn â buddsoddi a phrisiau dr yn parhau, gyda mewnbwn allweddol oddi wrth y Gweinidog i'r broses o bennu'r rhaglen fuddsoddi. Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd, cadarnhaodd Gweinidog nad oedd unrhyw gynlluniau i godi unrhyw gronfeydd newydd yng Nghymru;

- Amddiffynfeydd rhag llifogydd – byddai'r Gweinidog yn ceisio cyngor ar gais am gael gweld astudiaethau dichonoldeb, a oedd yn cael ei asesu gan swyddogion ar y pryd, gan fod yr wybodaeth yn 'eiddo' i'r awdurdodau lleol a oedd wedi comisiynu'r astudiaethau. Croesawai'r Pwyllgor y cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith atal llifogydd;

- Ymweliad â Chamlas Trefaldwyn – yr angen i harneisio manteision holl ddyfrffyrdd Cymru;

- Cyfarfod ag Asiantaeth yr Amgylchedd – pryderon ynglyn â threfn yr Asiantaeth o safbwynt bod yn agored a thryloyw.

- Rheoliadau Claddu Sbwriel – byddai'r Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y mesurau a gymerir i rwystro hylifau gwastraff rhag cael eu gwaredu ar dir amaethyddol gan na ellir mwyach eu hanfon i safleoedd claddu sbwriel.

**Cynllunio**

- Y gronfa Cynaliadwyedd – yr oedd y Gweinidog wedi ysgrifennu ar y cyd ag Edwina Hart at Stephen Timms AS, yr Ysgrifennydd Ariannol yn y Trysorlys, ynglyn â dosbarthu'r doll agregau yn deg yng Nghymru gan fod yna ddiffyg rhwng yr arian a ddosbarthir a'r hyn a gesglir;

**Trafnidiaeth**

- Grant i Gwmnïau Gwasanaethau Bws – cymeradwyodd y Pwyllgor gynnig y Gweinidog i ddefnyddio'r drefn weithredol i gyflwyno is-ddeddfwriaeth er mwyn ehangu'r meini prawf

cymhwyso i gynnwys ystod ehangach o gwmnïau cludiant cymunedol;

- Cyfarfodydd Trafnidiaeth – natur y trafodaethau yn y Fforwm Trafnidiaeth, a oedd wedi sefydlu gweithgorau i archwilio materion penodol ac adrodd yn ôl i'r Fforwm.

**Eitem 3: Nantygwyddon: Adroddiad y Gweinidog** - EPT-13-02 (p 2)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad. Ers iddo gael ei gylchredeg, roedd y Prif Swyddog Meddygol wedi ysgrifennu at y Cadeirydd yn nodi mewn mwy o fanylder y gwaith yr ymgymerwyd ag ef er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion yn ymwneud ag iechyd (gweler y copi yn Atodiad 2).

2. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma mewn perthynas â'r meysydd canlynol yn yr adroddiad:

- Gwrthdroi'r difrod i'r safle – yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r argymhellion sy'n ymdrin â chapio, trin trwytholch ar y safle a sicrhau bod data monitro ar gael yn hwylus i drigolion lleol, a'r posibiliadau o ddefnyddio nwy o'r gladdfa sbwriel fel ffynhonnell ynni;

- Astudiaethau iechyd – rôl Canolfan Iechyd (gysgodol) Cymru ac Asiantaeth Sylweddau Gwenwynig a Chofrestrfa Clefydau (ATSDR) yr UD, a fyddai'n gweithio gyda'i gilydd i roi cyngor ar dywys yr argymhellion sydd a wnelont ag iechyd yn eu blaen. Ystyried yr anawsterau o gymhathu data iechyd poblogaeth o fewn poblogaethau bach ac a oes modd goresgyn y cyfyngiadau technegol a chyfreithiol pe bai unigolion yn cytuno i ddata personol gael ei ryddhau;

- Bod yn agored a thryloyw – rôl Cyngor yr Amgylchedd yn cynorthwyo Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfathrebu â thrigolion lleol, a pha lwyddiant a gafwyd o bwyso am ddileu ‘cyfrinachedd masnachol’ fel rhwystr rhag cael gweld cofnodion cwmnïau a ariannir yn gyhoeddus;

- Asesiadau effaith – yr angen am asesiadau effaith cyfun o safbwynt iechyd, yr amgylchedd ac ystyriaethau ariannol;

- Cofnodion cyhoeddus – trefniadau wedi'u sefydlu i sicrhau bod ffeiliau'r awdurdodau iechyd yn cael eu cadw ac y byddant ar gael i gyrff olynu tra bydd y GIG yng Nghymru yn cael ei ad-drefnu.

3.3 Gan fod ymchwiliad y Pwyllgor wedi ei gwblhau bellach, byddai Canolfan Adnoddau'r ymchwiliad yn cau a byddai'r copïau electronig o dystiolaeth yn cael eu tynnu oddi ar wefan y

Cynulliad. Byddai'r Cadeirydd yn sicrhau y byddai'r dystiolaeth yn dal ar gael i'r cyhoedd drwy ofyn amdani a byddai'n ysgrifennu at y rhai a fu'n cymryd rhan i nodi'r trefniadau.

**Eitem 4: Cynllunio: cyflawni dros Gymru – y ffordd ymlaen** - EPT-13-02 (p 3)

4.1 Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor am y cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Y broses benderfynu – yr angen i'r system fod yn agored a thryloyw a rhaid iddi fod yn amlwg ei bod yn deg. Dylid dal y ddysgl yn wastad rhwng y pwysau i benderfynu'n gyflym a phwysigrwydd gwneud penderfyniadau da, gyda'r broses a'r amserlenni wedi'u nodi mewn trafodaethau cychwynnol rhwng darpar ymgeiswyr a swyddogion cynllunio;

- Cynlluniau Datblygu Lleol – cytunwyd mai ar y cynlluniau datblygu lleol y dylid seilio penderfyniadau lleol, ac na ddylid caniatáu datblygu ond yn unol â'r cynllun, ac y dylid gwrthannog ceisiadau sydd yn amlwg yn groes iddo. Roedd yna rywfaint o gefnogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu ar geisiadau gan awdurdodau lleol ynglyn â datblygu eu tir eu hunain, ac awgrym y gellid cynnwys awdurdodau lleol eraill yn y broses;

- Adnoddau – cefnogaeth i adnoddau digonol ar gyfer y broses gynllunio, yn enwedig i ymgymryd ag asesiadau iechyd ac asesiadau effaith eraill;

- Hawl trydydd parti i apelio – angen cymorth ar gyfer trydydd partïon yn enwedig lle bo datblygiad arfaethedig yn groes i'r cynllun datblygu lleol neu ar safle a warchodir;

- Gorchmynion Prynu Gorfodol – yr angen am sensitifrwydd wrth ddelio â pherchnogion tai y mae eu cartrefi i gael eu prynu ac am hyblygrwydd wrth benderfynu pa bris a gynigir;

- Y Cynllun Gofodol – cefnogaeth i roi'r cynllun ar sail statudol ac awgrym y dylai data gael ei rannu rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdodau cynllunio lleol a chyrff eraill.

4.2 Byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad yn cyflwyno'r diwygiadau yn yr hydref. Gellid cyflwyno mwyafrif y newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau, ond byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer rhai, a byddir yn ymdrin â hynny ar sail Cymru a Lloegr. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am fanylion am y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei hawgrymu ar draws y portffolio EPT, i'w ystyried yn nhymor yr hydref.

**Eitem 5: Adolygiad o Drafnidiaeth Gymunedol** - EPT-13-02 (p 4)

5.1 Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor am y blaenoriaethau o ran trafnidiaeth gymunedol. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Argymhellion – croeso cyffredinol i ddatblygu trafnidiaeth gymunedol fel rhan o'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus brif ffrwd, a fyddai'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig a threfol. Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer y cynnydd yn y ddarpariaeth;

- Strategaethau rhanbarthol – yr angen i awdurdodau lleol gynnwys teithwyr, cwmnïau trafnidiaeth a grwpiau lleol eraill wrth lunio strategaethau trafnidiaeth gyhoeddus rhanbarthol;

- Ceir preifat – potensial y car preifat fel math o drafnidiaeth gymunedol mewn ardaloedd gwledig, a'r awgrym y gellid defnyddio ‘cardiau clyfar’ fel ffordd o gyd-drefnu cyfraniad gan deithwyr ac iawndal i berchnogion ceir;

- Y ddarpariaeth gwasanaethau – câi manylion y gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol sydd a'r gael, a'r niferoedd sy'n manteisio arnynt, eu darparu i'r Aelodau.

**Eitem 6: Adolygiad Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Amddiffynfeydd Arfordirol: Ymatebion i'r Ymgynghoriad** - EPT-13-02 (p 5)

6.1 Nododd y Pwyllgor hynt yr adolygiad o'r mecanweithiau cyllido a'r trefniadau gweinyddol mewn perthynas ag amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol. Câi adroddiad ar y ffordd ymlaen ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Eitem 7: Cofnodion cyfarfod 3 Gorffennaf 2002** - EPT-12-02 (min)

7.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

4.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.30 am ddydd Mercher 23 Hydref yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2002**

**Annex 1**

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**Environment, Planning and Transport Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

16 July 2002

Sue Essex AM

Minister for Environment

Dear Sue,

**BUDGET PLANNING ROUND 2002**

Following consideration of your budget issues paper on 19 June I am writing to formally set out the budget priorities of the Environment, Planning and Transport Committee for the period 2002-03 to 2005-06.

The Committee supports the proposal to target investment towards an integrated transport system (including the trunk road programme), implementing the waste strategy and progressing flood and coast defence schemes. We note the intention to support further sustainable development activities, subject to availability of funds, and call for resources to be made available to support the final definition of sustainable development indicators.

We particularly welcome the commitment to make available sufficient provisions to deliver the National Assembly's obligations for biodiversity, and ask that adequate resources be made

available for the management of Sites of Special Scientific Interest and Special Areas of Conservation. We would also wish to flag up the potential for resource issues arising from recommendations of the Committee's review of Local Biodiversity Action Plans later in the year.

I also draw your attention to the strong support of the Education and Lifelong Learning Committee for the continuing investment in 'safe routes to school' to promote safety and healthy exercise.

**Copies of this letter go to members of the Committee and the Chair of the Education and Life Long Learning Committee.**

Yours sincerely,

**Richard Edwards AM**

**Chair of the Environment, Planning and Transport Committee**

**Annex 2**

**Dr Ruth Hall FFPHM FRCPCH FRCP**

**Chief Medical Officer**

Dr Richard Edwards

Chair

Environment Planning and Transport Committee

National Assembly for Wales

Cardiff Bay

CARDIFF 16 July 2002

Dear Dr Edwards

**Environment, Planning and Transport Committee Meeting 17 July:**

**Nant-y-Gwyddon Investigation**

I thought it might be helpful if I set out in more detail the work we have undertaken in taking forward the recommendations of the Nantygwyddon Investigation where my office has a leading role.

When I was in Atlanta in April, I met Dr Georgi Jones, Director of Policy and External Affairs, US Agency for Toxic Substances and Disease Registry (ATSDR). We discussed the possibility of their involvement to assist us to take forward the health related recommendations of the Nant-y-gwyddon Investigation. ATSDR is an agency of the US Department of Health and Human Services and serves the public by using the best science, taking responsive public health actions, and providing trusted health information to prevent harmful exposures and disease related to toxic substances. ATSDR confirmed that it has done work on similar sites in the United States and in Europe. ATSDR believe it is vital to establish a two-way interaction with communities when handling such cases and this ties in with the Assembly's guiding principles of working in partnership and being open and accessible.

ATSDR first had to clear internally their proposed engagement with the National Assembly for Wales. On 21 June, Dr Georgi Jones responded that ATSDR were pleased to assist us and provided some initial views on how we might take this forward. I explained that I wanted to obtain RANT's views and, if possible, support to ATSDR involvement. This was discussed at a meeting with RANT on 2 July 2002 and RANT, who have been in touch with ATSDR over the past 6 years, are supportive of the proposal.

I have asked the shadow Wales Centre for Health to act as a focus for this international collaboration. I hope to have ATSDR's guidance in relation to an expert event we plan for the autumn.

Also, I have asked the shadow Wales Centre for Health to appoint a liaison officer to work with the community. RANT concurs with this proposal.

To summarise our progress:-

**a. Recommendation 16.6**

*16.6 I recommend that specific health studies related to person/dose/substance(s) be commissioned involving blood, urine and fat sampling/testing and analysis. Results should be published with independent expert commentary as soon as possible. These tests and analyses need to be undertaken in the context of ambient and site specific pollution data. Attempts should be made to plot low birth weights in the vicinity of the Nantygwyddon site as soon as possible.*

**Progress**

I have met RANT on two occasions to ensure community engagement in the process and I believe that these have been constructive meetings. The first meeting was held on18 April and I updated RANT on latest progress at our meeting on 2 July 2002. The following actions were agreed at this meeting:-

- The Congenital Anomaly Register and Information Service (CARIS) would be asked to produce a discussion paper for our next meeting to look at surveillance and data collection systems now in operation particularly regarding gastrochisis.
- My office would facilitate a meeting between RANT and the Chairman designate of Rhondda Cynon Taf Local Health Board that will assume responsibility for health care on 1 April 2003.
- The shadow Wales Centre for Health was asked to appoint a liaison officer to work with the community.
- The shadow Wales Centre for Health would be the focus for an emerging collaboration with ATSDR, whose considerable expertise would assist follow-up on the health recommendations of the Nantygwyddon investigation.

We continue to consider specific local concerns about health in collaboration with Bro Taf Health Authority. For example, RANT has suggested that there is a cluster of cases of Non Hodgkin's Lymphoma in the area. I have asked the Wales Cancer Intelligence and Surveillance Unit (WCISU) to investigate this claim and their work is proceeding.

***Recommendation 16.15***

*16.15 I recommend that the National Assembly consider how communities may seek independent research and health risk appraisal to allay their fears and respond to inactivity or failure by the regulatory/health protection bodies.*

Progress

The agreement with the Velindre NHS Trust to establish the Wales Centre for Health in shadow form from 1 June 2002 provides a vehicle for addressing this recommendation. Statutory provision for the Wales Centre for Health was contained in the draft NHS Wales Bill which was published for consultation on 17 May 2002.

Yours sincerely

***RUTH HALL***

Chief Medical Officer